

**PARTNERIAETH AWYR-AGORED**  
Profiad • Mwynhau • Llwyddo



Experience • Enjoy • Achieve  
**OUTDOOR PARTNERSHIP**

# Dringo i blant a phobl ifanc anabl

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored, ar y cyd â Chanolfan Ddringo Beacon, yn cynnig chwe wythnos o sesiynau dringo'n rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc anabl.

Bydd y sesiynau ar gael i blant a phobl ifanc anabl (rhwng 5 a 18 oed) Siroedd Conwy, Gwynedd a Môn.

Yn dilyn hynny, ac er mwyn annog y plant a'r bobl ifanc i barhau i ddringo ar ôl i'r cyfres sesiynau ddod i ben, byddwn ni'n gwahodd chi'r rhieni, aelodau teulu, neu weithwyr cefnogol sy'n dod â'r plant a'r bobl ifanc i'r sesiynau i gymryd rhan hefyd. Wrth gymryd rhan yn y sesiynau, byddwch chi hefyd yn derbyn hyfforddiant ar sut i oruchwylio plentyn neu berson ifanc sy'n dringo.

Y bwriad, erbyn diwedd y cyfnod chwe wythnos, ydi galluogi'r plant a'r bobl ifanc i barhau i ddod a dringo'r wal ddringo ar unrhyw bryd heb fod angen hyfforddwr i'w goruchwylio. Bydd y rhai sy'n cwblhau'r cwrs sesiynau'n derbyn aelodaeth mis rhad ac am ddim yng Nghanolfan Ddringo Beacon.

Byddwn ni hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr sydd â diddordeb mewn gweithio gyda phlant a phobl ifanc anabl ac mewn dysgu pobl i ddringo.

Dewch draw i'r cyflwyniad ar ddydd Sul, Ionawr 17eg 2016 10-11 yb yn wal Ddringo'r Beacon. Bydd hyn yn gyfle i chi weld y wal ddringo, cyfarfod â'r hyfforddwyr, gofyn cwestiynau a chofrestru ar gyfer y sesiwn datblygu o chwe wythnos. Cysylltwch â ni os hoffech chi fynychu'r diwrnod cyflwyno neu i ddatgan eich diddordeb.



Am fwy o wybodaeth neu er mwyn cofrestru, ffoniwch  
Y Bartneriaeth Awyr Agored ar  
01690 720 168

Gyda chefnogaeth | Supported by  
**BBC**  
Plant mewn Angen  
Children in Need

© BBC 2007. Euslen gofrestrwyd Cymru a Lloegr no. 840292 a Alban no. SC039507  
Reg. charity England & Wales no. 802952 and Scotland no. SC039507

 **beacon**  
climbing centre

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn gallu cynnig y sesiynau yma oherwydd iddi dderbyn arian o gronfa Plant Mewn Angen. Bwriad y sesiynau ydi dangos i bobl bod dringo'n gamp sy'n addas i bawb

[www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk](http://www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk)